

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF)

A Cefndir

1. Beth yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?

Cynllun defnydd tir cenedlaethol 20 mlynedd rhwng 2020 a 2040 fydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (y Fframwaith). Bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2020.

2. Beth yw diben y Fframwaith?

Mae Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol yn cyflwyno'r sail dros weithredu tymor hir, ac mae'n sail i'n gwaith fel Llywodraeth. Mae'n gofyn i ni wneud pethau'n wahanol, cydgysylltu ein dull o gyflwyno blaenoriaethau'r llywodraeth ac osgoi ailadrodd strategaethau a chynlluniau gweithredu. Nod y Fframwaith yw helpu i gyflawni Ffyniant i Bawb trwy ddatblygu cyfeiriad gofodol hirdymor clir ar gyfer polisi, gweithredu a buddsoddiad y Llywodraeth ac ar gyfer eraill y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda nhw.

Bydd y Fframwaith yn cyflawni hyn trwy nodi'r meysydd twf allweddol, lleoliad a'r math o seilwaith sydd ei angen arnom, trwy gydlynw'r broses o gyflenwi tai, swyddi a'r seilwaith cysylltu, a thrwy weithio gyda phartneriaid allweddol i helpu i ddatblygu'r weledigaeth ofodol genedlaethol. Bydd y Fframwaith yn siapio datblygiadau polisi'r dyfodol, penderfyniadau buddsoddi a gwaith ein partneriaid allweddol, ac yn fodd i gydlynw a chanolbwyntio'n gynnar ar gyflawni yn hytrach na phennu blaenoriaethau gofodol ar wahân.

3. Beth fydd y Fframwaith yn ei wneud?

Mae Ffyniant i Bawb yn esbonio **beth** mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio'i gyflawni, mae cynlluniau allweddol y Llywodraeth yn nodi **sut** y bydd yn cyflawni hyn, a'r Fframwaith yn egluro **ble**. Hefyd, bydd yn cefnogi a darparu'r cyd-destun ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

Bydd y Fframwaith yn ein helpu i gynllunio a gwneud penderfyniadau ar faterion cenedlaethol sy'n ymwneud â defnydd tir tan 2040. Nid ydym wedi penderfynu ar gynnwys terfynol y Fframwaith eto, ac rydym yn dal i weithio gyda phobl i ddatblygu hyn. Mae'n debygol y bydd y Fframwaith yn:-

- Nodi lle bydd y datblygiadau cenedlaethol mwyaf yn digwydd.
- Cyflwyno sut y bydd poblogaethau Cymru yn tyfu'n genedlaethol ac yn rhanbarthol.
- Nodi'r meysydd twf newydd a'r seilwaith i gefnogi hyn.
- Esbonio sut fyddwn ni'n cynhyrchu ynni yn y dyfodol, ac ym mhle.
- Cefnogi dulliau cynllunio gwahanol ar gyfer tri rhanbarth Cymru – y Gogledd, y Canolbarth a'r De, a'r De-ddwyrain.
- Gwarchod a gwella ein hadnoddau naturiol allweddol.

4. Sut fydd y Fframwaith yn cefnogi gwaith arall Llywodraeth Cymru?

Bydd dwy rôl allweddol i'r Fframwaith – helpu i gyflawni'r meysydd polisi unigol a chydlynw'r gwaith o ddarparu polisiâu gwahanol er mwyn sicrhau'r canlyniadau

cadarnhaol gorau posib. Bydd y ddwy rôl hon yn sicrhau bod y Fframwaith yn helpu i gyflawni Ffyniant i Bawb.

Gallai'r Fframwaith gefnogi meysydd polisi'r llywodraeth sy'n effeithio ar lefydd. Mae tai, trafnidiaeth, datblygu economaidd, ynni, yr amgylchedd, adfywio ac ati yn enghreifftiau o'r meysydd polisi a all gynnwys datblygiad ffisegol neu gael eu heffeithio gan benderfyniadau'n ymwneud â defnydd tir. Bydd y Fframwaith yn cael ei llunio i ategu'r polisiâu allweddol hyn a sicrhau bod y system gynllunio yn gyson yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, er mwyn helpu i'w cyflawni.

Hefyd, bydd y Fframwaith yn helpu i gydlynu a chynllunio'r ddarpariaeth meysydd polisi gwahanol, gan sicrhau bod y penderfyniadau rydym ni'n eu cymryd ym meysydd tai a thwf economaidd y dyfodol, er enghraifft, yn cael eu cydlynu â'r broses o ddarparu seilwaith ynni, gwastraff a thrafnidiaeth; eu bod nhw'n cefnogi ein hamcanion dros y Gymraeg; bod seilwaith cymdeithasol fel iechyd a chyfleusterau addysg yn cael eu darparu yn y llefydd cywir; a'n bod ni'n deall yr effaith ar yr amgylchedd a'n cyfoeth naturiol yn llawn.

5. Beth yw'r berthynas rhwng y Fframwaith a Thasglu'r Cymoedd?

Fel cynllun defnydd tir strategol hirdymor, lefel uchel, ni fydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar gynllunio neu gyflawni yn y tymor byr uniongyrchol. Ni fydd chwaith yn ceisio cymryd camau ar bethau sy'n well eu penderfynu ar lefel leol neu ranbarthol. Nod y Fframwaith yw bod yn gynllun a allai'n helpu i gyflawni newidiadau cenedlaethol ar gyfer yr hirdymor.

Efallai bod modd bwrw ymlaen â llawer o gamau gweithredu a cherrig milltir 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni' cyn cyhoeddi'r Fframwaith ac/neu ei gefnogi gan y system gynllunio ar lefelau rhanbarthol a lleol. Wrth ddatblygu'r Fframwaith, fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r holl gyfleoedd i gefnogi cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau a nodwyd, gan gynnwys y blaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Hefyd, mae'n bwysig bod y cynllun defnydd tir cenedlaethol yn nodi pa mor bwysig yw cyflawni blaenoriaethau ar gyfer y Cymoedd fel mater o bwys cenedlaethol.

Gallai'r berthynas bwysig rhwng y Fframwaith a gwaith Tasglu'r Cymoedd ganolbwyntio ar sut allai'r tair blaenoriaeth – swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni; gwell gwasanaethau cyhoeddus; a fy nghymuned leol – a'r camau sydd eu hangen i'w cyflawni, helpu i lywio cynlluniau strategol tymor hir. Dylai'r broses ymgysylltu, y dystiolaeth a'r polisiâu a ddatblygwyd trwy waith Tasglu'r Cymoedd lywio'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith a'u cynnwys mewn cynlluniau strategol tymor hirach, er mwyn sicrhau bod gwaddol Tasglu'r Cymoedd yn parhau. Gellir defnyddio'r rhwydweithiau cryf, y grwpiau rhanddeiliaid a'r berthynas a gafodd ei meithrin rhwng y Tasglu a'r cymunedau lleol, i gyfrannu at ddatblygiad y Fframwaith a sicrhau bod cymunedau yn helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau ar sut fydd Cymru yn tyfu ac yn newid dros yr 20 mlynedd nesaf.

Er mwyn nodi'r meysydd lle gallai'r Fframwaith a Thasglu'r Cymoedd gydweithio, mae Opsiwn a Ffeirir y Fframwaith (a esbonir yn fanylach isod) yn sicrhau y bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar y meysydd niferus a gododd yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol. Er enghraifft mae'r Opsiwn a Ffeirir yn nodi pwysigrwydd yr economi sylfaenol (JS4), yr economi gylchol (JS18), ansawdd aer (PS12), tai (PS15), cynhyrchu ynni lleol (VLP4) a'r seilwaith werdd (VLP10) ar gyfer llesiant hirdymor Cymru. Wrth inni ddatblygu'r Fframwaith dros y flwyddyn nesaf, mae'n bwysig nodi'r potensial i gefnogi gwaith Tasglu'r Cymoedd a bwrw ymlaen â hynny; a chymryd cyfle i sefydlu gwaddol tymor hirach Ein Cymoedd, Ein Dyfodol ar draws y system gynllunio.

B Lle rydyn ni arni nawr a'r ymgynghoriad arfaethedig

6. Lle rydyn ni arni gyda'r Fframwaith ar hyn o bryd?

Rydym wedi cyrraedd y cam lle byddwn ni'n ymgynghori ar Faterion, Opsiynau ac Opsiynau a Ffeirir o'r Fframwaith. Dyma ran ffurfiol datblygu cynllun.

Bydd camau'r dyfodol, yn enwedig y gwaith o baratoi'r Fframwaith drafft er mwyn ymgynghori arno yn ystod haf 2019, yn datblygu polisiau manwl y Fframwaith. Nid oes penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ar hyn o bryd, ac rydym yn awyddus i barhau i weithio gyda phobl wrth inni gamu ymlaen.

7. Beth fydd cynnwys yr ymgynghoriad?

Yr Opsiwn a Ffeirir yw prif ffocws yr ymgynghoriad, sydd wedi'i esbonio isod.

Mae materion, gweledigaeth, amcanion ac opsiynau amgen y Fframwaith yn cyflwyno'r cyd-destun pwysig i'r Opsiwn a Ffeirir a bydd y manylion llawn yn rhan o'r ymgynghoriad.

8. Beth yw'r dewisiadau amgen?

Wrth ystyried sut gallai'r Fframwaith gyflawni ei amcanion, fe wnaethom ystyried 4 dull amgen, gan archwilio beth fyddai'n digwydd dros yr 20 mlynedd nesaf pe baem ni'n canolbwyntio ar y canlynol:

1. cyfeirio datblygiadau newydd dim ond i ardaloedd trefol sydd wedi'u sefydlu'n barod;
2. gwasgaru datblygiadau newydd yn gyfartal dros bob cwr o Gymru;
3. rheoli pob datblygiad newydd gyda'r nod o gwtogi ar y defnydd o garbon mewn cymdeithas; neu
4. seilio twf ar adnoddau naturiol Cymru.

Fe wnaethom ymgysylltu â phobl ledled Cymru yn ystod misoedd Hydref-Tachwedd 2017 er mwyn datblygu a gofyn am eu barn a'u sylwadau ar y dewisiadau amgen hyn, ynghyd â'r casgliadau a gawsom o brofi canlyniadau posib pob dull, er mwyn datblygu un pwyslais penodol ar gyfer y Fframwaith – sef yr Opsiwn a Ffeirir.


9. Beth yw'r Opsiwn a Ffeirir?

Mae'r Opsiwn a Ffeirir:-

- yn darparu'r strwythur ar gyfer paratoi'r Fframwaith;

- yn cyflwyno'r tri amcan cyffredinol – Datgarboneiddio a Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd a Llesiant, Cymunedau Cydlynus a'r Gymraeg – yr holl elfennau y mae'n rhaid i'r Fframwaith eu cefnogi
- yn nodi'r materion daearyddol y bydd y Fframwaith yn canolbwyntio arnynt;
- yn darparu cyfeiriad y polisiau a ddatblygwn ar gyfer y Fframwaith.

Crynodeb o'r Opsiwn a Ffefrir



C Y camau nesaf a'r amserlen

Byddwn yn gofyn am farn ac ymateb pobl i faterion, gweledigaeth, amcanion ac Opsiwn a Ffeirir y Fframwaith yn y dyfodol agos. Byddwn yn cyhoeddi cylchlythyr y Fframwaith gydol y camau allweddol. Y ffordd orau o gadw mewn cysylltiad yw trwy dderbyn y cylchlythyr hyn. Anfonwch eich manylion cyswllt gan gynnwys eich cyfeiriad e-bost at NDF@gov.wales ac fe wnawn ni'ch ychwanegu chi at y rhestr bostio.

Cam 1 – cwblhawyd	Paratoi Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd	Ionawr 2016
Cam 2 - cwblhawyd	Cyhoeddi ac ymgynghori ar Ddatganiad Cyfranogiad y Cyhoedd	Chwefror - Ebrill 2016
Cam 3 - cwblhawyd	Ystyried ymatebion i'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd a pharatoi adroddiad ymgynghori	Mai - Medi 2016
Cam 4 - cwblhawyd	Casglu tystiolaeth, datblygu'r weledigaeth, amcanion ac opsiynau / ymgysylltu / galw am dystiolaeth a phrosiectau	Hydref 2016 – Mawrth 2018
Cam 5	Cyhoeddi ac ymgynghori ar y prif faterion, opsiynau a'r ymgynghoriad opsiwn a ffeirir, wedi'u hategu gan adroddiadau ac asesiadau amgylcheddol (12 wythnos)	Ebrill – Gorffennaf 2018
Cam 6	Ystyried yr ymatebion i'r prif faterion, opsiynau a'r ymgynghoriad yr opsiwn a ffeirir, a pharatoi adroddiad ymgynghori	Gorffennaf - Hydref 2018
Cam 7	Paratoi fersiwn ddrafft o'r Fframwaith / cynnal proses ymgynghori	Hydref 2018 – Mehefin 2019
Cam 8	Ymgynghori ar y Fframwaith drafft (12 wythnos)	Gorffennaf - Medi 2019
Cam 9	Ystyried yr ymateb i'r Fframwaith drafft a pharatoi adroddiad ymgynghori	Hydref 2019 – Mawrth 2020
Cam 10	Y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried y Fframwaith drafft (60 diwrnod 'eistedd')	Ebrill - Mehefin 2020
Cam 11	Cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol	Medi 2020

